Joint review

Cydadolygiad

Gorffennaf 2008

Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Crynodeb

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi ynghylch y rhaglen gydadolygu yng Nghymru ar gael ar y wefan: **www.joint-reviews.gov.uk** neu gan:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 01443 848483
Cyfeiriad E-bost: **JointReviews@wales.gsi.gov.uk**

ISBN: 978 0 7504 4771 3
CMK-22-11-032
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2008
D1610809

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad cryno hwn o gydadolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Bwriad yr adolygiad yw ateb dau gwestiwn allweddol:

- Pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol y mae pobl yr ardal yn eu derbyn?
- Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Tîm Adolygu, ar sail dadansoddiad trylwyr o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad. Bwriadwn i'r adroddiad:

- ddweud wrth y cyhoedd pa mor dda y caiff pobl eu gwasanaethu;
- helpu'r gwasanaethau hyn i wella;
- diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr; a
- sicrhau gwell gwerth am arian o ran darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol.

Cynhelir cydadolygiadau yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y dasg o gynnal adolygiadau ei dirprwyo i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae Adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyfranogi.

Cynhaliwyd y Cydadolygiad o wasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot gan dîm a oedd yn cynnwys Kevyn Rice, Kevin Barker, Margaret Wearing a Nick Selwyn, gyda Jenny Cook a Penny Evans yn aseswyr lleyg. Ymwelwyd â safle Cyngor Castell-nedd Port Talbot rhwng mis Medi 2007 a mis Tachwedd 2007. Rhoddwyd cyflwyniad ar ganfyddiadau'r Adolygiad hwn i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2007.

Yn yr Adolygiad, yr oeddem yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth y Cyngor a rhanddeiliaid eraill. Bu llawer o unigolion a grwpiau'n cydweithio wrth gynllunio a chefnogi'r broses adolygu. Hoffai'r Tîm Cydadolygu ddiolch i bawb a gyfrannodd drwy rannu eu profiadau a'u barn.

Ceir hefyd adroddiad llawn sy'n amlinellu asesiad y Tim Adolygu o'r Cyngor mewn mwy o fanylder. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth bwysicaf a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad, gan nodi cryfderau ac arfer da yn ogystal â meysydd i'w datblygu

[1] Pan ddefnyddir y term ***cydadolygiad*** heb briflythrennau, mae hynny'n dynodi'r rhaglen gyffredinol yng Nghymru Mae ***Cydadolygiad*** gydag 'C' fawr yn cyfeirio at yr adolygiad a gynhaliwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Gofynnwyd i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Bydd AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach er mwyn gwerthuso'r cynnydd a gyflawnwyd wrth weithredu'r camau hyn, a'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb hwn ar gael ar wefan y Cydadolygiad.

Rob Pickford
Prif Arolygydd

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Casgliadau Cyffredinol

Mae'r bennod hon yn crynhoi dyfarniad cyffredinol y tîm cydadolygu ar y Cyngor. Mae'n amlygu cryfderau allweddol y Cyngor ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer eu datblygu.

1.1 Crynodeb

Bernir bod gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot wasanaethau da ar y cyfan, a'i fod mewn sefyllfa gref i gynnal a gwella gwasanaethau ymhellach (Dangosyn 1)

Dangosyn 1: Safle Castell-nedd Port Talbot ym matrics perfformiad y cydadolygiad



Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n bodloni disgwyliadau uwch a newidiol ar ran y cyhoedd. Daeth y Tîm Adolygu i'r casgliad fod Castell-nedd Port Talbot yn darparu ystod dda iawn o wasanaethau, a bod y datblygiadau a gyflawnwyd ers y cydadolygiad diwethaf wedi parhau i adeiladu ar enw da'r Cyngor o ran cefnogi pobl yn y gymuned a chynyddu eu hannibyniaeth. Mae'r gwasanaethau a ddarperir o ansawdd da ar y cyfan, ac mae amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod hynny'n parhau. Mae rhannau o'r gwasanaethau dan bwysau a cheir rhai bylchau y gwyddys amdanynt, a chaiff hynny effaith andwyol ar allu'r Cyngor i ddiwallu anghenion rhai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyflymu newid er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Mae'r Cyngor wedi nodi bod y gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y lefel o fuddsoddiad ariannol ychwanegol sydd wedi helpu i gefnogi cynnydd. Yn arbennig, mae'r gwasanaethau i blant wedi derbyn buddsoddiad sylweddol, ac mae hynny wedi helpu tuag at ddiwallu anghenion y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, ac i liniaru rhai o'r anawsterau sylweddol a gafwyd wrth ddarparu gwasanaeth asesu a rheoli gofal effeithiol.

At ei gilydd, bernir bod y Cyngor mewn sefyllfa gref i gynnal a gwella ymhellach y gwasanaethau a ddarperir:

- **Ceir tystiolaeth o welliant sydd wedi'i gynnal ers y cydadolygiad diwethaf.**
- **Ceir partneriaethau strategol cadarn gyda sefydliadau eraill.**
- **Maent wedi dangos arweinyddiaeth a gweledigaeth gadarn y mae'r sefydliad cyfan yn berchen arno.**
- **Maent wedi dangos rheolaeth a chynllunio effeithiol o ran y gweithlu.**
- **Ceir systemau rheoli perfformiad da, er bod angen datblygu rhai meysydd.**
- **Maent wedi cyflawni cynnydd o ran cyflwyno dull effeithiol o gomisiynu.**

Fodd bynnag, yr her i'r Cyngor, o reidrwydd, fydd parhau i fynd i'r afael â meysydd lle bo'r perfformiad yn llai boddhaol, ac i sefydlu a chynnal y cynnydd a wnaed, mewn amgylchedd ariannol anodd. Wrth wneud hynny, bydd angen iddo wneud yn siŵr fod ganddo'r gallu i reoli prosiectau mawr yn llwyddiannus a gweithredu argymhellion o ystod o adolygiadau gwasanaeth. Bydd angen iddo hefyd barhau i ddatblygu ei ddull o gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol a chynllunio ariannol yn y tymor hwy, a gwneud yn siŵr ei fod yn sicrhau gwerth am arian o bob un o'i weithgareddau a'i wasanaethau.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Nod yr Adolygiad oedd ateb dau gwestiwn allweddol:

Pa mor dda yw'r gwasanaethau? (Dangosyn 2)

Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau? (Dangosyn 3)

Pa mor dda yw'r Gwasanaethau?

Themâu

1. Cael cymorth (mynediad at wasanaethau; asesu; rheoli ac adolygu gofal)
2. Y gwasanaethau a ddarperir (ystod; ansawdd)
3. Yr effaith ar fywydau pobl (trefniadau i amddiffyn pobl agored i niwed; llwyddiant o ran hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol)

Dangosyn 2: Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Dyfarniadau'r Tîm Adolygu

	Gwael	Anghyson	Da ar y cyfan	Rhagorol
Mynediad at wasanaethau			•	
Asesu		•		
Rheoli ac adolygu gofal			•	
Ystod y gwasanaethau a ddarperir			•	
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir				•
Trefniadau ar gyfer amddiffyn pobl agored i niwed			•	
Llwyddiant o ran hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol			•	

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Achosion yn cael eu dyrannu'n gyflym gan amlaf • Meini prawf cymhwyster clir a defnydd clir ohonynt • Cynnydd da o ran gweithredu Asesiadau Unedig	• Gwella prydlondeb ac ansawdd asesiadau • Sicrhau cynlluniau gofal wedi'u costio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • Rhoi sylw i'r meysydd lle mae gwasanaethau dan bwysau ac ymdrin â'r bylchau yn y gwasanaethau

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Trefniadau da ar gyfer trosglwyddo achosion • Gwella perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty • Ystod dda o wasanaethau sy'n canolbwyntio'n fwyfwy ar hyrwyddo annibyniaeth a datblygu sgiliau byw • Perfformiad da o ran sefydlogrwydd y lleoliadau a chyflawniad addysgol y plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor • Ystod o systemau ansawdd wedi'u datblygu'n dda ar waith, yn enwedig o ran y gwasanaethau mewnol • Proses effeithiol ar gyfer rheoli cwynion • Gweithredu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'i ffocws • Rhoi blaenoriaeth uchel i Daliadau Uniongyrchol gyda nifer gynyddol yn derbyn y rhain	• Ceisio lleihau'r nifer uchel o bobl hŷn a gaiff eu cefnogi mewn lleoliadau preswyl • Sicrhau asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg effeithiol ym maes amddiffyn plant • Hyrwyddo asesiadau a chefnogaeth i ofalwyr • Rhoi sylw i anghenion pobl o gymunedau lleiafrifol a'u cefnogi

Thema 1: Cael cymorth

Canfu'r Tîm Adolygu fod y Cyngor, at ei gilydd, yn darparu gwybodaeth o ansawdd da i'r cyhoedd. Mae'r trefniadau cysylltu a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y gwasanaethau i blant ac ar gyfer pobl hŷn ac anabl yn gweithio'n dda. Ystyrir bod y gwasanaethau a ddarperir y tu allan i oriau arferol yn foddhaol, a chaiff y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ei rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth briodol ac gael yn rhwydd i bawb sydd ei hangen, mae angen i'r Cyngor roi sylw i broblemau o ran niferoedd i gefnogi'r gwasanaeth. Nid yw'r trefniadau cysylltu'n gweithio cystal mewn ambell i wasanaeth ac mae angen mwy o eglurder ynghylch pa un a fydd y trefniadau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael eu hymestyn i'r meysydd hyn.

Yn y gwasanaethau i blant ac i oedolion, ceir dull cyson o weithredu'r meini prawf cymhwyster a blaenoriaethu gwasanaethau. Caiff achosion eu dyrannu'n gyflym, ar y cyfan, ond tybiwyd bod yr ymarfer asesu, at ei gilydd, yn anghyson. Nid yw'r asesiadau, mewn amryw o feysydd gwasanaeth, yn ddigon prydlon hyd yma, nac o ansawdd digon cyson i sicrhau bod pawb sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau yn cael eu gwasanaethu'n dda. Caiff yr anghysondeb hwn ei adlewyrchu ar draws gwahanol wasanaethau ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau gwell perfformiad, yn enwedig o ran y gwasanaethau i blant ac o ran gofalwyr.

O'r ffeiliau achos a archwiliwyd, gallai'r adolygwyr nodi perfformiad da ar y cyfan o ran rheoli gofal. Mae'r newidiadau i strwythurau tîm yn y timau plant, pobl hŷn ac anabledd corfforol yn cael eu sefydlu ac mae manteision hynny'n dechrau dwyn

ffrwyth. Yr oedd y trefniadau i ddyrannu a throsglwyddo achosion yn gweithio'n dda ac roedd y perfformiad wrth adolygu achosion yn dda ar y cyfan. Mae buddsoddiad ychwanegol mewn staffio yn y timau plant yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau sylweddol a gafwyd yn flaenorol. Mae angen adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau system rheoli gofal effeithiol yn y dyfodol.

Thema 2: Y gwasanaethau a ddarperir

Mae'r Cyngor yn darparu ystod dda iawn o wasanaethau o ran gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant, ac ehangwyd ar yr ystod honno yn y blynyddoedd diweddar er mwyn diwallu anghenion a disgwyliadau newidiol. Yn arbennig, cafwyd nifer o ddatblygiadau mewn gwasanaethau, gyda'r bwriad o hyrwyddo annibyniaeth defnyddwyr y gwasanaethau i oedolion, ac i gefnogi teuluoedd er mwyn atal yr angen am fwy o ymyrraeth ffurfiol. Mae'r Cyngor yn cynyddol ddatblygu gwasanaethau effeithiol mewn partneriaeth ag eraill a dangosodd y staff ymrwymiad sylweddol i weithio ar y cyd.

Fodd bynnag, gwyddys fod ambell i faes dan bwysau a bod bylchau mewn gwasanaeth, a chaiff y rheiny effaith andwyol ar y gallu i ddiwallu anghenion rhai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Bwriedir cyflawni gwelliannau a datblygiadau pellach yn dilyn adolygiadau o rai meysydd o wasanaethau a ddarperir a bydd gweithredu'r rhain yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i wella ei berfformiad wrth gefnogi pobl yn y gymuned.

Mae'r awydd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da wedi'i sefydlu ym mhob rhan o'r Cyngor, o'r arweinyddion i'r staff rheng flaen. Mae'r nod hwn yn un o amcanion corfforaethol y Cyngor, ac mae wedi'i gefnogi gan amrywiaeth dda o gynlluniau sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau cymdeithasol. Canfu'r Tîm Adolygu fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth feddwl mawr o'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ac yr oedd ansawdd da llawer o'r gwasanaethau a welwyd yn ystod cyfnod yr Adolygiad wedi creu argraff dda arnynt. Yr oedd y Cyngor yn rheoli cwynion yn dda gyda nifer o nodweddion ardderchog yn rhan o hyn, a bydd systemau sicrhau ansawdd effeithiol yn helpu i sicrhau ansawdd y gwasanaethau yn y dyfodol.

Thema 3: Yr effaith ar fywydau pobl

Canfu'r Adolygwyr fod trefniadau'r Cyngor i amddiffyn pobl agored i niwed yn cynnwys defnydd priodol o weithdrefnau aml-asiantaethol a chafwyd lefel dda o ymgysylltu gydag asiantaethau eraill. Sefydlwyd Bwrdd Lleol Diogelu Plant, gydag ymrwymiad cadarn gan bartneriaid, ac mae'n datblygu ffocws ehangach i'w waith wrth ddiogelu pobl ifanc.

Ceir tystiolaeth o reolaeth ragweithiol o ran achosion sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, ac mae pob un o'r rhain wedi'u dyrannu i weithiwr cymdeithasol. Ceir lefel isel o ail-atgyfeirio, cynhelir pob adolygiad o fewn canllawiau statudol, a cheir trefniadau effeithiol o ran cynnal cyfarfodydd grwpiau craidd. Fodd bynnag, mae angen ymyrraeth gan y rheolwyr i sicrhau y parheir i wella a rhoi sylw i rai o'r diffygion hanesyddol mewn arferion rheoli gofal yn ymwneud ag asesu a rheoli risg yn y gwasanaethau i blant.

Mae gan y Cyngor enw da o ran darparu gwasanaethau ataliol a pharhau i'w datblygu, ac o ran cefnogi pobl yn y gymuned. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i daliadau uniongyrchol, er mwyn rhoi mwy o ddewis a galluogi nifer gymharol uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth i gael mwy o reolaeth dros wasanaethau.

Datblygwyd gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn helpu i feithrin sgiliau byw. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor i'w paratoi ar gyfer bod yn annibynnol. Mae cefnogaeth dda ar gael iddynt hefyd pan fônt yn gadael gofal. Mae gwell cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu ac i'r rhai a chanddynt broblemau iechyd meddwl ynghyd ag ymgyrch i weithredu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Fodd bynnag, mae pwyslais sylweddol hefyd yn parhau ar ffurfiau mwy traddodiadol o ofal a chefnogaeth, a bydd yn rhaid adfer cydbwysedd o blaid gwasanaethau sy'n cefnogi annibyniaeth. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i roi blaenoriaeth uwch i ofalwyr ac mae angen gwell dealltwriaeth o anghenion pobl o gymunedau lleiafrifol.

Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau?

Themâu

4. Llunio gwasanaethau (adnoddau, cynllunio a phartneriaethau; comisiynu a chontractio)
5. Darparu gwasanaethau cymdeithasol (gweithlu, rheoli perfformiad)
6. Gosod cyfeiriad (arweinyddiaeth a diwylliant yn y gwasanaethau cymdeithasol; craffu a chefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol)

Dangosyn 3: Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor o ran cynnal a gwella gwasanaethau?

Dyfarniadau'r Tîm Adolygu

	Sefylla wael	Sefylla ansicr	Sefylla dda	Sefylla gref
Adnoddau			•	
Cynllunio a phartneriaethau				•
Comisiynu a chontractio			•	
Gweithlu				•
Rheoli perfformiad			•	
Arweinyddiaeth a diwylliant				•
Craffu a chefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol			•	

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Buddsoddi mewn gwasanaethau i blant • Sylfaen ariannol gadarn a chefndir da o ymdopi o fewn y gyllideb gyffredinol • Adroddiadau cyllideb rheolaidd a chefnogaeth dda gan y tîm cyllid • Cydweithio cadarn mewn partneriaeth • Nifer o brosiectau aml-ddisgyblaethol effeithiol • Cynlluniau busnes wedi'u cysylltu'n effeithiol â chynlluniau strategol • Cyd-grŵp Gweithredol yn goruchwylio gweithredu'r prosiect 'Darparu Gwasanaethau Integredig' • Buddsoddi mewn datblygu potensial, megis timau plant rheng flaen, a chomisiynu a chontractio • Morâl uchel ar y cyfan ymysg y staff • Perfformiad da o ran cyflawni cymwysterau galwedigaethol a buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi • Cynllun 'Tyfu eich gweithiwr cymdeithasol eich hun' i helpu gyda recriwtio a chadw staff • Goruchwylio a gwerthuso staff yn rheolaidd • Systemau rheoli perfformiad sefydledig, gydag adroddiadau gwybodaeth rheoli rheolaidd • Arweinyddiaeth glir gan uwch reolwyr, a chynrychiolaeth a chefnogaeth dda ar lefel gorfforaethol • Rheolaeth gyffredinol dda o newidiadau pwysig mewn gwasanaethau • Ymgysylltu â'r gymuned	• Datblygu cynllunio ariannol yn y tymor hwy, a hynny'n gysylltiedig â chynllunio busnes • Sicrhau gwerth am arian ym mhob gweithgarwch • Datblygu trefniadau cyd-reoli mwy integredig • Parhau â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau comisiynu, a chysylltu'r rhain ag adnoddau • Mabwysiadu dull mwy cyson o ddadansoddi anghenion a mapio'r farchnad ar draws yr holl wasanaethau • Datblygu perthynas waith fwy strategol gyda darparwyr gwasanaeth i wella'r broses o reoli'r farchnad • Cysylltu cynllunio'r gweithlu â chynllunio busnes a chomisiynu gwasanaethau • Ymgysylltu staff yn fwy cyson â datblygiadau a newidiadau sefydliadol • Parhau i ddatblygu swyddogaeth pwyllgorau craffu

Thema 4: Llunio gwasanaethau (adnoddau; cynllunio a phartneriaethau; comisiynu a chontractio)

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig y gwasanaethau i blant, yn flaenoriaeth. Mae hyn wedi arwain at ddarparu adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cefndir o ymdopi o fewn y gyllideb yn dda, gan lunio adroddiadau ariannol effeithiol, er bod angen dull mwy cyson o ddatganoli cyfrifoldebau rheolaeth ariannol.

Fodd bynnag, yn yr amgylchedd ariannol mwy caeth sydd ohono yn sgîl y setliad ariannol diweddaraf, bydd angen i'r Cyngor sicrhau y caiff adnoddau eu targedu a'u defnyddio'n effeithiol i ymateb i'r pwysau a ddisgwylir yn y galw am wasanaethau cymdeithasol a'r angen i barhau i foderneiddio'r gwasanaethau. Byddai datblygu cynlluniau ariannol tymor hwy yn fuddiol er mwyn ymateb i'r agenda hon.

Ceir fframwaith cynllunio strategol cadarn sy'n ymgysylltu â'r rhan fwyaf o brif randdeiliaid, ac mae'r Cyngor wedi meithrin perthynas gadarn gyda llawer o bartner-sefydliadau. Aethpwyd ar drywydd datblygiadau mewn gwasanaethau mewn ymateb i gynlluniau strategol, a cheir hefyd enghreifftiau lu o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth mewn prosiectau ar lefel weithredol. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhai dulliau effeithiol o weithredu er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i ddatblygu potensial ym maes contractio a chomisiynu strategol trwy fuddsoddi adnoddau ychwanegol a chreu tîm dan reolaeth y Pennaeth Cymorth Busnes. Mae hyn eisoes wedi dechrau dangos manteision gwirioneddol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy os yw'r broses gomisiynu am fod yn sianel ar gyfer darparu ystod o wasanaethau cost effeithiol i ddiwallu anghenion am gymuned gyfan. Ar hyn o bryd, mae strategaethau comisiynu ar gamau amrywiol o ddatblygiad, nid ydynt yn cysylltu'n effeithiol ag adnoddau ac nid ydynt bob amser yn dangos ymgysylltiad effeithiol â darparwyr gwasanaeth.

Thema 5: Darparu gwasanaethau cymdeithasol (gweithlu; rheoli perfformiad)

Mae morâl ymysg staff y gwasanaethau cymdeithasol yn uchel. Mae hyn wedi helpu i gynnal gweithlu cymharol sefydlog ac wedi gwella'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw staff. Mae'r staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol o ansawdd da. Gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn datblygu cynlluniau gweithlu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, ac mae gwybodaeth dda ar gael am y gweithlu.

Daeth y Tîm Adolygu i'r casgliad fod y Cyngor wedi sefydlu llawer o systemau a phrosesau i gefnogi rheoli perfformiad effeithiol, gyda diwylliant rheoli sefydledig, sydd hefyd yn datblygu, ac sy'n cynnwys goruchwyliaeth reolaidd o staff a buddsoddi mewn systemau gwybodaeth newydd. Mae angen dull mwy strategol o ymdrin â'r broses sicrhau ansawdd erbyn hyn, ac mae angen i reolwyr sicrhau y defnyddir gwybodaeth yn brydlon ac yn effeithiol i fynd i'r afael â'r meysydd hynny sydd angen gwella.

Thema 6: Darparu cyfeiriad (arweinyddiaeth a diwylliant yn y gwasanaethau cymdeithasol; craffu a chefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol)

Mae uwch reolwyr wedi rhoi arweinyddiaeth glir i'r gwasanaethau cymdeithasol, gan roi synnwyr o gyfeiriad sydd wedi arwain at reolaeth effeithiol o newidiadau wrth foderneiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau, a chafwyd buddsoddiad i ddatblygu'r gallu i gefnogi newidiadau sefydliadol. Mae gan reolwyr ymwybyddiaeth gadarn o brif ystyriaethau eu meysydd o gyfrifoldeb, yn gryfderau ac yn feysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, mae angen i reolwyr sicrhau bod ganddynt y gallu i reoli rhaglen sylweddol o adolygiadau a drefnwyd a gweithredu'r newidiadau i'r gwasanaethau yn sgil yr adolygiadau hyn.

Caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu hystyried yn flaenoriaeth ar lefel gorfforaethol a gwleidyddol o fewn y Cyngor a cheir synergedd rhwng nodau'r Cyngor a nodau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae arweinyddion y Cabinet yn rhoi sylw i'r prif ystyriaethau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol ac wedi dangos ymrwymiad i adeiladu ar ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir. Cafwyd gwelliannau yng ngweithrediad y Pwyllgorau Craffu, ond mae angen cyflawni gwelliannau pellach os ydynt am fod yn gwbl effeithiol wrth fonitro a gwerthuso perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen atgyfnerthu arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol ymhellach os yw'r gwasanaethau cymdeithasol i ymateb yn effeithiol i'r prif newidiadau y mae rheolwyr wedi'u dynodi a'u cynllunio o fewn amgylchedd ariannol tynn.

1.3 Blaenoriaethau gweithredu

Mae'r adolygwyr wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer gweithredu:

1. Gwella asesu, rheoli ac adolygu gofal.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- fynd i'r afael â phroblemau o ran dyrannu achosion, a'r nifer mewn rhai timau;
- gwella prydlondeb ac ansawdd asesiadau;
- cefnogi ac arwain ymarferwyr i ddarparu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio'n fwy cyson ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau i oedolion ac i blant, a sefydlu cost y cynlluniau; a
- sicrhau cysondeb mewn ansawdd adolygiadau o gynlluniau gofal.

2. Ymdrin â rhai gwendidau yn y trefniadau ar gyfer amddiffyn pobl agored i niwed

Dylai rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol:

- ym maes gwaith amddiffyn plant, sicrhau gwell arfer o ran:
  - asesiadau craidd;
  - asesu a rheoli risg; ac
  - ansawdd adolygiadau statudol.
- mynd i'r afael â phroblemau niferoedd i ymdrin ag amddiffyn oedolion.

3. Gwella'r gefnogaeth i ofalwyr

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- sicrhau y caiff asesiadau ar gyfer gofalwyr eu cynnig a'u cwblhau; a
- mynd i'r afael â'r diffygion mewn gwasanaethau, yn enwedig gofal seibiant.

4. Datblygu strategaethau comisiynu effeithiol

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau elwa i'r eithaf ar botensial cysylltiad y Cyngor â chynlluniau rhanbarthol er mwyn datblygu cyfleoedd comisiynu;
- cysylltu strategaethau comisiynu â'r adnoddau sydd ar gael; ac
- ymgysylltu darparwyr gwasanaeth yn fwy cyson mewn datblygu a gweithredu strategaethau comisiynu;

Dylai rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol:

- gwblhau strategaethau comisiynu manwl ar gyfer pob grŵp defnyddwyr gwasanaeth; a
- datblygu dull mwy cyson o ddadansoddi anghenion a mapio'r farchnad.

5. Sicrhau y rhoddir proffil uwch i anghenion pobl o gymunedau lleiafrifol du ac ethnig

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ehangach;
- sicrhau y caiff staff eu cefnogi wrth ddiwallu anghenion diwylliannol defnyddwyr a gofalwyr;
- datblygu cynlluniau busnes a strategaethau comisiynu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion cymunedau lleiafrifol; a
- galluogi'r fforwm lleiafrifoedd Du ac Ethnig i bod yn ganolbwynt ar gyfer sbarduno gwelliannau a newid.

6. Datblygu dull mwy strategol o ddarparu gwerth am arian o'r holl weithgareddau wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol

Dylai'r Cyngor

- sicrhau bod y buddsoddiad mewn gwasanaethau yn darparu'r canlyniadau disgwyliedig, ac y caiff ei dargedu at flaenoriaethau; a
- nodi holl oblygiadau ariannol y newidiadau i'r gwasanaethau.

Dylai rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol:

- gysylltu comisiynu a chynllunio gwasanaethau â'r adnoddau sydd ar gael dros y tymor hwy; a
- nodi, olrhain a monitro costau unedau.

7. Sicrhau bod digon o reolwyr ar gael i ddarparu'r rhaglen newid a nodwyd

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau'r niferoedd angenrheidiol i reoli'r rhaglen sylweddol o adolygiadau a gynlluniwyd ac i weithredu'r newidiadau.

Copïau pellach

Mae copïau pellach o'r crynodeb hwn ar gael o:

AGGCC
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848483

e-bost: jointreview@wales.gsi.gov.uk